

Blwyddyn Meithrin, Derbyn ac Un

Athrawon: Mrs Alaw Dobson

Miss Eleri Williams

Cymorthyddion:

Anti Sian , Anti Llinos, Anti Gill,

Anti Lora

THEMA: Gwledydd Oer



Addysg Gorfforol

Bydd gwersi addysg gorfforol ar y dyddiau a ganlyn:-

Diwrnod	Derbyn ac Un
Dydd Llun	Gymnasteg a Nofio
Dydd Mawrth	Clwb Dal i Fynd
Dydd Iau	Clwb Dal i Fynd
Dydd Gwener	Chwaraeon allan

Ffeiliau Darllen

Yn anffodus mae llawer yn anghofio dychwelyd ffeiliau yn wythnosol. Ni allwn bwysleisio pwysigrwydd eich cymorth chi i ddarllen yn rheolaidd gyda'ch plentyn a'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref. Bydd eich plentyn yn dod a ffeil darllen adref ar ddydd Gwener ac mae angen ei dychwelyd ar **ddydd Mercher**. Gofynnwn yn garedig am adborth gennych chi yn wythnosol yn y llyfr cofnodi, dim llofnod yn unig os gwelwch yn dda. Os oes rhai yn cael cardiau llythrennau gofynnwn i chi ymarfer rhain gyda'ch plentyn am ychydig funudau bob nos er mwyn atgyfnerthu gwaith y dosbarth.

Diolch

Datblygiad Iaith, Ilefaredd a Chyfathrebu

Defnyddio strategaethau ffonig i ddatgodi geiriau syml gyda chymorth. Darllen testunau syml yn gywir gyda peth rhuglder.

Creu priflythrennau a llythrennau bach sydd fel arfer yn eglur eu siâp ac yn wynebu'r ffordd gywir . Sgwrsio am yr hyn y maent yn mynd i'w ysgrifennu.

Siarad i greu stori wrth chwarae yn ddychmygol .

Datblygiad Mathemateg

Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10/20 o leiaf.

PATRWM – dangos dealltwriaeth o batrymau ailadroddus.

SIAPIAU – defnyddio siapiau 2D a 3D i greu modelau a lluniau.

Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth

Llythyren yr wythnos

Byddwn yn cyflwyno llythyren yr wythnos ar ddydd Llun, mae croeso i'r plant ddod a rhywbeth sy'n cychwyn gyda'r lythyren i'r bwrdd dangos. Byddwn yn gwneud llawer o dasgau ymarfer ffurfio yn ymarferol ac yn y swyddfa. Gofynnwn i chi hefyd ymarfer ffurfio'r lythyren gyda'ch plentyn.

Bydd llawer o waith ein dosbarth yn cael ei arwain gan y plant. Byddwn yn dilyn eu diddordebau ac yn manteisio ar gyfleoedd sydd yn codi yn naturiol – megis digwyddiadau cenedlaethol. Golyga hyn y byddwn ambell dro yn mynd ar drywydd hollol wahanol i'r thema!

Personol a Chymdeithasol

Bod yn ymwybodol o'u teimladau a'u emosiynau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd briodol

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Dechrau sylwi ar wahaniaethau rhwng eu hardal eu hunain ac ardaloedd mewn gwahanol rannau o'r byd. Dysgu am y synhwyrau y mae pobl ac anifeiliaid eraill yn meddu arnynt ac yn eu defnyddio i'w galluogi i fod yn ymwybodol o'r byd sydd o'u cwmpas.

Datblygiad Creadigol

Datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o liwiau, patrwm a siâp.

Datblygiad Corfforol

Gweithio ar eu pen eu hunain a gydag eraill i esgus, ymateb yn fyrfyfyr a meddwl yn ddychmygus.

Llyfrau dosbarth

Peta ar goll, Y Pengwin oedd eisiau hedfan, Dyna Sypreis,

Tasgau posibl

Chwarae rôl fel pengwinaid ym Mhegwn y De, adeiladau iglw gyda lymphiau siwgr, creu dynion eira hefo eisin, ysgrifennu llythyr i Pedro y Pengwin, edrych ar Begwn y De a'r Gogledd ar glôb y byd, gwneud jig-so pengwin, paentio gyda lliwiau oer a chynnes, astudio côd cuddliw llwynog yr eira, adnabod ac enwi anifeiliaid gwledydd oer a llawer llawer mwy!